GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (LLAN-NON, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Llan-non, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 yn Llan-non sy'n ymestyn o bwynt 150 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Môr hyd at bwynt 5 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys.

Caiff cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd eu dargyfeirio o Aberaeron ar yr A482 tua'r de-ddwyrain i Felin-fach a'r B4342 a'r B4337 tua'r gogledd i ailymuno â'r A487 yn Llanrhystud: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Lanrhystud.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Ionawr 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (18:00 – 06:00 o'r gloch) o 10 – 14 Ionawr 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A487 TRUNK ROAD (LLANON, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Llanon, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road at Llanon that extends from a point 150 metres south of the centre-point of its junction with Heol y Môr to a point 5 metres south of the centre-point of its junction with Stryd yr Eglwys.

Northbound vehicles will be diverted from Aberaeron via the south-eastbound A482 to Felinfach and the northbound B4342 and B4337 to re-join the A487 at Llanrhystud: vice versa for southbound vehicles from Llanrhystud.

The Order comes into force on 10 January 2022. The temporary prohibition is expected to operate overnight (18:00 – 06:00 hours) from 10 – 14 January 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government